

Dillad





Dillad

Llodrau isaf

Y dilledyn lliain yma oedd yr haen isaf o ddillad y byddai cynion yn ei gwisgo, a hynny o dan eu clos neu eu britshis. Roedden nhw'n cael eu cadw yn eu lle â charrai am y canol, oedd hefyd yn caniatáu ichi addasu'r brethyn nes ei fod yn ffitio'n iawn.



Sut rydyn ni'n gwybod am lodrau isaf?

Disgrifiadau mewn dogfennau o oes y Tuduriaid, a thystiolaeth darluniau mewn llawysgrifau. Ceir sawl darlun yn *Llyfr Oriau Mawr Anne o Lydaw*, tua 1500-1508 (BNF Lat 9474): Mehefin (ffôl. 9), Medi (ffôl. 12), *Merthyrdod y Deng Mil* (ffôl. 117v), a *Merthyrdod Sant Sebastian* (ffôl. 175v).



Dillad

Clos/britshis

Dilledyn gwlan i'r coesau a oedd yn cael ei wneud drwy ei fesur yn unswydd i ddynton unigol. Byddai'r brethyn yn cael ei dorri ar letraws, a oedd yn ei helpu i ffitio'n dda. Gallai clos gael ei wneud hefyd o ddefnyddiau eraill, fel lliain.

Yn hanner cyntaf oes y Tuduriaid, byddai clos yn cael ei wisgo o dan siyrcyn llaes. Wrth i'r ffasiwn newid, dechreuodd y clos gael ei leinio â lliain neu galico o liw gwahanol, a byddai'r haen allanol yn cael ei thorri'n agored uwchlaw'r pen-glin er mwyn dangos y leinin. Weithiau byddai'r clos yn gorchuddio'r goes gyfan, neu byddai'n gorchuddio'r cyfan neu ran o'r glun ac yn cael ei wisgo ar y cyd â hosanau ar hanner isaf y goes ('clos pen-glin'). Yr enw Saesneg arny'n nhw yn oes Elizabeth oedd 'Venetians' ac roedden nhw'n ymestyn at y pen-glin gyda'r ffabrig yn cael ei grychu am y canol.



Sut rydyn ni'n gwybod am glos/britshis?

Mae yna gyfeiriadau at glos mewn disgrifiadau o gartrefi Tuduraidd ac mewn ewyllysiau Tuduraidd. Mae clos lliain, a gafwyd yn Kloster Alpirsbach yn yr Almaen, wedi'i ddyddio i'r cyfnod rhwng 1490 a 1529. Mae yna beintiadau sy'n dangos dynion yn gwisgo clos, gan gynnwys darlun Lucas de Heere ym 1572 'Alegori Olyniaeth y Tuduriaid', a darlun Nicholas Heere ym 1587 'Dyn Ifanc ymysg Rhosod'.



Dillad

Sanau bach

Roedd y dillad yma'n cael eu gwneud o sidan, lliain, neu frethyn gwlân main, ac roedden nhw'n fersiwn cynnar o sanau hir modern. Roedden nhw'n cael eu gwneud drwy eu mesur i'r unigolyn penodol. Byddai'r brethyn yn cael ei dorri ar letraws, a oedd yn ei helpu i ffitio'n dda. Dim ond sanau bach gwlân a/neu liain y gallai pobl dlawd eu fforddio, ond gallai pobl gyfoethog fforddio sidan hefyd.

Roedd y rhain yn cael eu gwisgo gan ddynion a menywod, ac roedden nhw'n cael eu cadw yn eu lle â rhuban am y goes.

Yng nghyfnod y Tuduriaid, daeth sanau wedi'u gwau i'r fei, i fenywod a phlant cyfoethog ar y dechrau. Daeth sanau wedi'u gwau yn fwy poblogaidd, am eu bod yn ffitio'n well ac yn fwy cyffyrddus i'w gwisgo na sanau brethyn, ac erbyn y 1590au roedden nhw'n cael eu gwisgo gan bobl o bob haen o'r gymdeithas, ond roedd gan y mwyafrif sanau o frethyn o hyd hefyd.



Sut rydyn ni'n gwybod am sanau bach?

Mae yna gyfeiriadau at sanau bach mewn disgrifiadau o gartrefi Tuduraidd ac mewn ewyllysiaid Tuduraidd. Mae peintiad Palazzo Moroni ym 1560, 'Y Bonheddwr mewn Pinc', yn dangos dyn sy'n gwisgo sanau bach a gardys yn eu cadw yn eu lle. Mae Delwedd rhif 009584 yng nghasgliad ar-lein Amgueddfa Llundain yn dangos sanau brethyn gwreiddiol o'r unfed ganrif ar bymtheg.



Dillad

Sanau sidan

Byddai sanau fel y rhain, sydd wedi'u gwau â llaw o sidan, yn cael eu gwisgo gan ddynion cefnog iawn.

Rhoddodd llys brenhinol Sbaen bâr o deits sidan (sef sanau sidan wedi'u gwneio wrth lodrau isaf wedi'u gwneud o liain) yn anrheg i'r Brenin Henry VIII ym 1539.

Wedyn daeth sanau wedi'u gwau yn boblogaidd iawn, gan gael eu mewnfario o Sbaen a'r Eidal. Byddai dynion cyfoethog yn gwisgo sanau sidan, a byddai'r dynion mwyaf cyfoethog yn gwisgo sanau sidan wedi'u brodio. Sanau wedi'u gwau o liain rhad oedd gan y dynion tlawd.

Ym 1589, cafodd y ffrâm wau ei dyfeisio gan William Lee, a greodd y sanau cyntaf yn Lloegr i gael eu gwau 'â pheiriant'. Gwrthododd y Frenhines Elizabeth I roi patent iddo i'w beiriant, am ei bod yn credu y byddai'r peiriant yn gwneud niwed i fywoliaeth pobl oedd yn gwau â llaw.

Aeth amser hir heibio cyn i'r ffrâm wau ddechrau cael ei defnyddio'n helaeth, ond dyfeisio'r ffrâm oedd y cam cyntaf tuag at fecaneiddio'r diwydiant tecstilau ym Mhrydain.



Sut rydyn ni'n gwybod am sanau sidan?

Mae llawer o'r portreadau o Henry VIII yn ei ddangos yn gwisgo sanau sidan. Mae *Portread Titian ym 1551 o Phillip II o Sbaen* (a briododd â'r Frenhines Mary I ac a ddaeth yn Frenin Lloegr) yn ei ddangos yn gwisgo sanau sidan hir. Mae gan Amgueddfa Llundain droed hosan sidan, rhif adnabod A13833.

